**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth, Mawrth 10fed 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Gerwyn Davies, Emlyn Williams

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ifor G Edwards, Ian W Griffith a'r Clerc.

Roedd Mr Dafydd Chilton, y cyfieithydd yn bresennol ynghyd â thua 20 o aelodau'r cyhoedd.

37.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Ifor Edwards ddiddordeb yn eitem rhif 6b – Apêl Mr Crossley – codi tyrbin gwynt 40 medr o uchder, 54.7 medr i frig y llafn uchaf yn Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn.

37.2 MATERION CYNLLUNIO
37.2.1 APÊL APP/T6905/A/14/2228788 Wind Power Wales Group – codi 10 tyrbin gwynt yn Llys Dymper, Gwytherin. Cafwyd gwybodaeth gan yr Adran Cynllunio bod yr Apêl wedi ei dynnu yn ôl a bod y cyfarfod cyhoeddus ar y cyd â Chyngor Cymuned Llansannan wedi ei ganslo. Gofynnwyd y cwestiwn pam fod y cyfarfod cyhoeddus wedi ei ganslo gennym gan nad oedd Cyngor Cymuned Llansannan wedi cyfarfod eto i'w drafod a bod apeliadau eraill i'w trafod.

37.2.2 APÊL APP/T6905/A/14/2227796 Mr R Crossley – codi tyrbin gwynt 40 medr o uchder, 54.7 medr i frig y llafn uchaf yn Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn. Gadawodd Mr Ifor Edwards y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth frwd ar y mater ac roedd teimladau cryf yn y cyfarfod. PENDERFYNWYD i fynd ymlaen â'r cyfarfod cyhoeddus yn Llansannan i drafod y cais hwn gan mai dyna oedd teimlad aelodau'r cyhoedd. Y Clerc i wahodd y datblygwr, aelodau'r Cynulliad a Swyddog Cynllunio Sir Conwy ac i gysylltu â Chyngor Llansannan i weld os medrent hwy gadeirio'r cyfarfod. Hefyd PENDERFYNWYD i edrych i mewn ac i drafod y tro nesaf y posibilrwydd o gofnodi enwau pawb sy'n pleidleisio o blaid ac yn erbyn penderfyniad y Cyngor. PENDERFYNWYD i ysgrifennu at yr Arolygiaeth Gynllunio yn cefnogi ein sylwadau blaenorol yn gwrthwynebu'r Apêl.

37.3 COFNODION – aethpwyd drwy gofnodion cyfarfod 28ain Ionawr 2015 a chynigiodd Ann Vaughan, eiliodd Ian W Griffith a phleidleisiwyd eu bod yn gywir. Cynygiodd Ann Vaughan ac eiliodd Tecwyn Evans a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Chwefror 2il i drafod y toiledau yn gywir.

37.4 MATERION YN CODI
37.4.1 HYSBYSFWRDD GWYTHERIN – gofynnwyd i Tecwyn Evans ac Emlyn Williams gael golwg am le addas i ad-leoli'r hysbysfwrdd.
37.4.2 BLYCHAU BLODAU- roedd y Clwb Garddio yn awyddus i wybod faint o arian fyddai ar gael ar gyfer llenwi'r blychau blodau i gyd a gwneud basgedi fel y llynedd. PENDERFYNWYD gofyn i'r Clwb os medrent roi amcangyfrif pris i lenwi un blwch ac i awgrymu efallai y byddai'r canolfannau garddio yn fodlon noddi blodau.

37.4.3  Cafwyd cais i ofyn am arwyddion parcio swyddogol yn Llangernyw – ar faes parcio'r Stag ac at yr Hen Ysgol.  Y Clerc i wneud ymholiadau.
37.4.4  Arian Cwmni Moelogan Dau – PENDERFYNWYD i wneud cais am godiad o 3% ar gyfraniad y cwmni y llynedd.
37.4.5 Ochr y ffordd ger Fron Goch yn feddal iawn ac yn beryglus.
37.4.6  Llinellau gwyn byth wedi eu peintio ar gyffordd Rhos Isaf, Llansannan.

37.5 PWYLLGOR MYNWENTYDD – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan Tecwyn Evans.  Roedd y pwyllgor yn argymell codi prisiau claddu £10 am y ddwy flynedd nesaf.  CYTUNODD y Cyngor â hyn.   Roedd y pwyllgor yn siomedig nad oedd y contractiwr wedi cwblhau'r gwaith ym Mynwent Gwytherin.

37.6  CYFARFOD FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – mynychodd chwech aelod o'r Cyngor y cyfarfod ym Modlondeb ar Chwefror 25ain i drafod y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'.  Pwysleisiwyd yn y cyfarfod ei bod yn bwysig i bob cyngor anfon sylwadau a gellir anfon sylwadau unigol hefyd.  PENDERFYNWYD cyfarfod ar nos Fawrth 21 Ebrill i drafod y papur.  Hefyd cafwyd adroddiad gan y Clerc o gyfarfod Fforwm 29ain Ionawr ym Modlondeb.

37.7  DATGANOLI GWASANAETHAU O'R CYNGOR SIROL – derbyniwyd gohebiaeth a'r Clerc i'w basio ymlaen ar ebost i'r aelodau.  Roedd angen ateb erbyn y cyfarfod Fforwm ar 15fed Ebrill.

37.8  CEISIADAU ARIANNNOL – PENDERFYNWYD i beidio cyfrannu at CFFI Eryri ond i gyfrannu £30 at Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy a £500 o Gronfa Bro Cernyw i Bwrlwm Bro Cernyw.

37.9  UN LLAIS CYMRU – PENDERFYNWYD i ymaelodi am gost o £133.

37.10  TOILEDAU LLANGERNYW – er i'r Clerc geisio cysylltu nid oedd unrhyw ymateb wedi dod.

37.11  GOHEBIAETH DARREN MILLAR AC – darllenwyd gohebiaeth ynglŷn ag israddio Adran Famolaeth Ysbyty Glan Clwyd a llythyr ynglŷn a mynediad i'r anabl gan aelod o'r etholaeth.  Cytunwyd y gallem gysylltu pan fyddai'r toiled anabl wedi ei agor.

37.12  BWRSERI ER COF AM IAN MACKESON SANDBACH – derbyniwyd llythyr gan Ms Antoinette Sandbach yn cynnig bwrsari er cof am ei diweddar dad ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ei weinyddu.  PENDERFYNWYD ein bod yn ei gefnogi ac i'w gwadd i gyfarfod o'r Cyngor.

37.13  GOR-YRRU DRWY LANGERNYW – derbyniwyd llythyr gan John a Sioned Harris yn cyfeirio at eu pryder am or-yrru drwy'r pentref yn enwedig gan fod plant yn cael gwersi beicio yn yr union fan ychydig yn ddiweddarach.  PENDERFYNWYD i gydnabod derbyn y llythyr a'n bod yn bwriadu cysylltu a'r Adran Ffrydd, yr Heddlu i geisio cael y fan Gan Bwyll yn ôl i'r pentref ac i wneud ymholiadau ynglŷn ag arwydd golau'n fflachio a hyfforddiant i aelodau gyda gwn cyflymder.

37.14  GOHEBIAETH – i'w hanfon i'r aelodau ar e-bost.

37.15 MATERION LLEOL
37.15.1 Angen gofyn i Mr Arfon Parry os fedr o gysylltu â busnesau'r ardal i weld os hoffent hysbysebu ar y wefan – Mr Parry i baratoi rhestr i'r Cyngor fwrw golwg drosti ac i feddwl am gost hysbysebu am 6 neu 12 mis.
37.15.2 Twrch yn dal ym Mynwent Llangernyw.
37.15.3 Ffens haearn wedi torri ger cyffordd Tyn Pistyll ar A548.
37.15.4 Angen glanhau arwydd Ysgol Bro Cernyw ar y briffordd.
37.15.5 Goleuadau stryd Pentre Isa – dau wedi torri.
37.15.6 Cyfarfod Cylchlythyr – 21 Ebrill
37.15.7 Cyfarfod nesaf – ddiwedd y mis os oes angen neu bydd yn mis Ebrill.
37.15.8 Tyllau yn ffordd uchaf Pandy Tudur ac ar bont ger Cartref y Ficerdy.

37.16 BILIAU
Mr Arfon Parry (gwefan) £107.36

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion ....E H Edwards........................ Dyddiad ...22/4/15...........................*

Community Council Meeting was held on Tuesday, 10 March 2015 at 7.30 pm at the Community Centre, Gwytherin

Apologies: Gerwyn Davies, Emlyn Williams

Present: Elen H. Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ifor G Edwards, Ian W Griffith & Clerk.

Mr Dafydd Chilton, the translator was present along with about 20 members of the public.

37.1 DECLARATION - Ifor Edwards expressed interest in item number 6b - Appeal Mr Crossley - wind turbine 40 meters high, 54.7 meters to the top of the upper blade Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn.

37.2 PLANNING
37.2.1 APPEAL APP / T6905 / A / 14/2228788 Wind Power Wales Group - erect 10 wind turbine at Llys Dymper, Gwytherin. Information was obtained from the Planning Department that the appeal had been withdrawn and that the public meeting in conjunction with Llansannan Community Council had been cancelled. The question was asked why the public meeting had been cancelled because Llansannan Community Council had not yet met to discuss it and other appeals were to be discussed.

37.2.2 APPEAL APP / T6905 / A / 14/2227796 Mr. R. Crossley - wind turbine 40 meters high, 54.7 meters to the top of the upper blade at Hendre Llwyn y Maen,

Llanfairtalhaiarn. Mr Ifor Edwards left the meeting. There was a heated discussion on the issue and there were strong feelings at the meeting. RESOLVED to proceed with a public meeting at Llansannan to discuss this application as it was felt the general public wished that. Clerk to invite the developer, Assembly members and County Planning Officer Conwy and to contact to see if Llansannan Council could chair the meeting. RESOLVED also to look into and discuss in the next meeting the possibility of recording those who voted for and against a Council's decision. RESOLVED to write to the Planning Inspectorate supporting our previous observations opposing the appeal.

37.3 Minutes - 28 January 2015 minutes were looked at and proposed by Ann Vaughan, Ian W Griffith seconded and all voted that they were accurate. Ann Vaughan proposed and seconded by Tecwyn Evans and all agreed that the minutes of 2nd February to discuss the toilet were correct.

37.4 MATTERS ARISING
37.4.1 NOTICEBOARD GWYTHERIN - Tecwyn Evans and Emlyn Williams were asked to have a look at a suitable place to relocate the noticeboard.
37.4.2 FLOWER BOXES - the Garden Club would like to know how much money would be available to fill the flower boxes and making baskets as last year. RESOLVED to ask the club if they could provide an estimate price to fill one box and suggest that garden centres may be willing to sponsor a flower box.
37.4.3 A request was made to seek official parking signs Llangernyw - Stag car park and to the Old School. Clerk to make enquiries.
37.4.4 Moelogan Dau Company grant - RESOLVED to apply for an increase of 3% on the contribution of the company last year.
37.4.5 Roadside near Fron Goch is very soft and dangerous.
37.4.6 White lines still not painted on the junction of Rhos Isaf, Llansannan.

37.5 CEMETERY COMMITTEE - there was a report of the meeting by Tecwyn Evans. The committee recommends raising burial prices £ 10 for the next two years. The Council AGREED to this. The committee was disappointed that the contractor has not completed the work at Gwytherin Cemetery.

37.6 COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM MEETING CONWY - Six members of the Council attended the meeting on February 25th at Bodlondeb to discuss the White Paper 'Local Government Reform: The Power of Local People'. The meeting emphasized that it is important for all councils to send comments and comments can be made individually as well. RESOLVED to meet on Tuesday April 21 to discuss the paper. There was also a report from the Clerk of the meeting of January 29th Forum at Bodlondeb.

37.7 DEVOLUTION OF SERVICES COUNTY COUNCIL - correspondence had been received and the Clerk be forwarded by email to members. It was necessary to reply to the Forum meeting on 15 April.

37.8 FINANCIAL APPLICATIONS - RESOLVED not contribute to Eryri YFC but to contribute £ 30 towards the Eisteddfod Dyffryn Conwy and £ 500 Bwrlwm Bro Cernyw.

37.9 ONE VOICE WALES - RESOLVED to join at a cost of £ 133.

37.10 LLANGERNYW TOILET - the Clerk had contacted the Council but no response had come.

37.11 DARREN MILLAR AM CORRESPONDENCE - read correspondence regarding downgrading Glan Clwyd Hospital and Maternity Department letter regarding disability access by members of the constituency. It was agreed that we could contact when the disabled toilet is open.

37.12 BURSARY IN MEMORY OF IAN MACKESON SANDBACH – a letter was received from Ms Antoinette Sandbach offering bursary in memory of her late father and asking the Community Council to administer. RESOLVED that we support and invite Ms Sandbach to a meeting of the Council.

37.13 SPEEDING THROUGH LLANGERNYW - a letter was received from John and Sioned Harris referring to their concern about speeding through the village especially as children get cycle lessons in the exact spot a little later. RESOLVED to acknowledge receipt of the letter and that we intend to contact the Highways Department, Police to try to get the van Arrive Alive back to the village and to enquire about the flashing sign and training for members with a speed gun.

37.14 CORRESPONDENCE - to be sent to members via e-mail.

37.15 LOCAL ISSUES
37.15.1 Need to ask if Mr Arfon Parry if he could contact local businesses to see if they would like to advertise on the web site - Mr Parry to prepare a list for the Council and think about the cost of advertising for 6 or 12 months .
37.15.2 Mole still at Llangernyw Cemetery.
37.15.3 Broken iron fence at the junction Tyn Pistyll on A548.
37.15.4 School sign needs cleaning on the highway in Llangernyw.
37.15.5 Streetlights Pentre Isa - Two broken.
37.15.6 Newsletter Meeting - April 21
37.15.7 Next meeting - the end of the month if necessary or in April.
37.15.8 Pot holes in Pandy Tudur higher road and bridge near Old Vicarage Nursing home.

37.16 BILLS
Mr Arfon Parry (website) £ 107.36

The meeting came to a close at 9:25 pm.

Approved the Minutes .... EH Edwards ....................... Date ... 22/4/15 ........ ........